

RÔL

Ymgynghorydd

Uwch Ymgynghorydd

Prif Ymgynghorydd

YSTOD CYFLOG

£30,000 to £55,000

LLEOLIAD

Gweithio gartref ond bydd angen i'r ymgeisydd fod wedi'i leoli yn Ne Cymru.

ORIAU

Gwaith llawn amser a rhan amser ar gael.

Rydym yn cynnig oriau hyblyg, ac efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos neu ar y penwythnos o bryd i'w gilydd.

Mae'n hanfodol bod gennych chi eich cludiant eich hun gan ein bod yn aml yn gweithio mewn llefydd heb fawr ddim cysylltiad trafnidiaeth gyhoeddus, os o gwbl.

CFP Landscape & Heritage

AMDANOM NI

Mae CFP wedi bod yn gweithredu ers dros 21 o flynyddoedd ac mae wedi sefydlu ei hun fel un o'r prif gwmniâu ymgynghori ym maes tirwedd a threftadaeth yn y DU. Gyda dros 670 o brosiectau yn cynnwys dros 200 o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae gennym hanes llwyddiannus.

Mae ein sylfaen cleientiaid yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y Parciau Brenhinol, English Heritage, y Gronfa Fyd-eang ar gyfer Natur, Yr Ymddiriedolaethau Natur, Cymdeithas y Pridd a llawer o elusennau ac awdurdodau lleol.

Dros y blynnyddoedd diwethaf, rydym wedi ehangu ein gwaith ledled Cymru a bydd ein canolfan yng Ngogledd Cymru, sydd wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, yn barod tua'r Pasg.

Mae ein portffolio yng Nghymru yn cynnwys prosiectau bioamrywiaeth sy'n ymwneud ag achub glaswellt y môr, ailgyflwyno afancod a gwelliannau i warchodfa natur. Ar gyfer treftadaeth adeiledig, mae'n cynnwys capel, tai hanesyddol, castell Gradd I a phont gludo.

GWYBODAETH AM Y SWYDD

Oherwydd bod aelod allweddol o dîm de Cymru wedi cael ei adleoli'n ddiweddar a bod ambell gyfnod mamolaeth ar y gweill, mae angen rhywun arnom i helpu i gyflawni prosiectau ledled y DU ond gydag elfen sylweddol o waith wyneb yn wyneb neu ar safleoedd yng Nghymru.

Mae llawer o'n gwaith yn cael ei wneud o bell ac oherwydd bod y tîm cyfan wedi mynd ar wasgar yn 2020, rydym bellach wedi ein lleoli yng nghanolbarth Lloegr, Glasgow, Salford ac Eryri. Ar hyn o bryd mae gennym 7 aelod o staff parhaol ynghyd â staff achlysurol a lleoliadau rheolaidd i fyfyrwyr.



Mae angen aelod profiadol o'r tîm arnom a fydd yn helpu i ddatblygu ein gwaith ledled Cymru yn ogystal â chwarae rhan allweddol mewn gwaith arall i'r dwyrain o'r ffin.

Mae'r hysbyseb yn cynnwys tair lefel o'n tîm gan ein bod yn croesawu ceisiadau gan bobl sydd â gwahanol lefelau o brofiad er mwyn gweld pwy fyddai'n gweddudorau i'n tîm a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Bydd prif elfennau'r rôl yn cynnwys:


- Canfod a helpu i sicrhau gwaith newydd - rydym am ddatblygu ein portffolio ymhellach a chreu partneriaethau a phrosiectau cydweithio newydd yng Nghymru a byddwch yn cael y cyfle i gyfrannu at y twf hwn.
- Datblygu a rheoli prosiectau – helpu gydag arfaniadau opsiynau, astudiaethau dichonoldeb, gwaith datblygu'r Gronfa Dreftadaeth, ceisiadau am gyllid
- Monitro a gwerthuso – dylunio fframweithiau gwerthuso a modelau rhesymeg, cynnal arolygon meintiol, dadansoddi data, ysgrifennu adroddiadau a chyflwyniadau
- Ymgynghori â'r gymuned ac ymgysylltu â rhanddeiliaid – o helpu gyda digwyddiadau ymgynghori, dylunio arolygon, cynnal cyfweliadau gwerthuso i gynnal gweithdai
- Cynllunio gweithgareddau – helpu i ddeall cynulleidfaoedd presennol a phosibl, proffilio ymwelwyr, dadansoddi dalgylchoedd, dylunio rhagleni gweithgareddau

EICH CEFNDIR

Bydd angen i chi fod â chefndir mewn treftadaeth adeiledig neu naturiol ac, yn ddelfrydol, sgiliau yn un o'r meysydd canlynol:

- datblygu a rheoli prosiectau
- ymgynghori ac ymgysylltu â'r gymuned
- gwerthuso

Byddem wir yn gwerthfawrogi cael siaradwr Cymraeg i ymuno â'n tîm. Mae ein Rheolwr Gyfarwyddwr yn dysgu Cymraeg, ond byddai cael aelod o'r tîm sy'n gallu sgwrsio ac ysgrifennu yn Gymraeg yn werthfawr iawn.



SUT MAE GWNEUD CAIS

I gael sgwrs anffurfiol am y rôl, ffoniwch Ian Baggott, ein Rheolwr Gyfarwyddwr ar 07720 895849.

I wneud cais, anfonwch eich CV cyfredol a llythyr eglurhaol at ian@cfduk.co.uk gan nodi sut rydych chi'n teimlo y byddai eich sgiliau a'ch profiad yn addas i'n gwaith

Dyddiad cau ddydd Llun 10 Mawrth.

Cyfweliadau wyneb yn wyneb ddydd lau 27 Mawrth yng Nghaerdydd.

ROLE

Consultant

Senior Consultant

Principal Consultant

SALARY RANGE

£30,000 to £55,000

LOCATION

Home working but the candidate will need to be based in South Wales.

HOURS

Full or part time available.

We operate a flexible working hours approach, occasional evening or weekend work might be required.

Access to your own transport is essential as we often work in places with little or no public transport connection.

CFP Landscape & Heritage

ABOUT US

CFP has been around for over 21 years and has established itself as one of the leading landscape and heritage consultancies in the UK. With over 670 projects including over 200 National Lottery Heritage Fund, we have a proven track record.

Our client base includes the National Trust, the Royal Parks, English Heritage, the World Wide Fund for Nature, wildlife trusts, the Soil Association and many local authorities and charities.

Over recent years we have expanded our work across Wales and will have our North Wales base in the Eryri National Park ready around Easter time.

Our Welsh portfolio includes biodiversity projects around sea grass ocean rescue, beaver re-introduction and nature reserve enhancements. For built heritage it includes a chapel, historic houses, a Grade I castle and a transporter bridge.

ABOUT THE ROLE

Due to recent relocation of our key south Wales team member and some upcoming maternity leave, we need someone to help deliver projects across the UK but with a significant element of face to face or site-based work in Wales.

Much of our work is done remotely and the whole team went free range in 2020, and we are now located in the midlands, Glasgow, Salford and Eryri. We are currently at 7 permanent staff along with casual staff and regular student placements.



We need an experienced member of the team who will help grow our work across Wales as well as play a key role in other projects east of the border.

The advert covers three levels of our team as we are open to applications from people with differing level of experience as we want to see who would best fit our team and our plans for the future.

Key elements of the role will include:



- Identifying and helping to secure new work - we want to develop our portfolio further and create new collaborations and partnerships in Wales and you will have the opportunity to contribute to this growth.
- Project development and management – helping with options appraisals, feasibility studies, Heritage Fund development stage works, funding bids
- Monitoring and evaluation – designing evaluation frameworks and logic models, running quantitative surveys, analysing data, report writing and presentations
- Community consultation and stakeholder engagement – from helping with consultation events, designing surveys, undertaking evaluation interviews to running workshops
- Activity planning – helping to understand current and potential audiences, visitor profiling, catchment analysis, designing activity programmes

YOUR BACKGROUND

You will need to have background in built or natural heritage and preferably skills in one of the following areas:

- project development and management
- community consultation and engagement
- evaluation

We would really value a Welsh speaker to be part of our team, our MD is a Welsh learner but the ability to converse and write in Welsh would be of tremendous value.



HOW TO APPLY

For an informal conversation about the role please call Ian Baggott our Managing Director on 07720 895849.

To apply please send your current cv and a covering letter setting out how you feel your skills and experience would suit our work to jan@cfpuk.co.uk

Closing date Monday 10th March.

Interviews in Cardiff Thursday 27th March in person.